Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Llifogydd CA2 / CA3

**Mae'r cynllun sesiwn hwn yn amlygu'r pwysigrwydd o reoli ein hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy, gan ganolbwyntio ar reoli dŵr, ac yn benodol, llifogydd.**



Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ymhob agwedd ar ei waith. Mae yn cynnwys gofalu am aer, y tir, y dŵr, y bywyd gwyllt, y planhigion a'r pridd er mwyn gwella lles Cymru a rhoi gwell dyfodol i bawb.

## Nod

I godi ymwybyddiaeth am beryglon llifddwr a sicrhau bod cyfranogwyr yn gwybod beth i'w wneud mewn achos o lifogydd.

I dynnu sylw at yr effaith y gall llifogydd gael ar wahanol aelodau o'r gymuned.

## Hyd y sesiwn

Hyd at 2 ½ awr

## Maes y cwricwlwm

Daearyddiaeth
ABCh
Conglfeini (Cornerstones) – Parth Trychineb

## Lleoliad

Unrhyw le

E-bost: addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

www.cyfoethnaturiol.cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Cynllun y sesiwn

**Beth y mae dysgwyr yn ei wybod am lifogydd a'r ffactorau sy'n cyfrannu tuag atynt?**
**Trafodwch y 3 math cyffredin o lifogydd: arfordirol, afonydd a llifogydd sydyn.**
**Pa un fyddai fwyaf tebygol o ddigwydd yn eich ardal chi?**

Ewch i weld os ydych chi'n byw mewn ardal sydd mewn perygl o lifogydd.
https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/?lang=cy

Defnyddiwch ein map ar-lein i weld lefelau afonydd yn eich ardal chi.
http://www.naturalresources.wales/evidence-and-data/maps/check-river-levels/?lang=cy

Os ydych chi'n byw mewn ardal sydd mewn perygl o lifogydd gallwch ddod o hyd i luniau o lifogydd y gorffennol yn eich ardal leol i'w dangos i'r dysgwyr.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn aml yn datblygu cynlluniau lliniaru llifogydd mewn ardaloedd lle ystyrir bod y risg yn uchel.

I gael gwybod pwy all helpu, edrychwch yma.
http://naturalresources.wales/media/5589/july-15-flooding-who-can-help-eng.pdf

Mae gwybodaeth am gynlluniau lliniaru llifogydd diweddar ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

**Dolgellau**
https://naturalresources.wales/about-us/news-and-events/newsletters/dolgellau-flood-risk-management-scheme/?lang=cy

**Crindau**
https://naturalresources.wales/about-us/our-projects/crindau-flood-risk-management-scheme/?lang=cy

**Dewiswch a detholwch o'r gweithgareddau canlynol i dynnu sylw at beryglon llifddwr a'r hyn y gall y dysgwyr ei wneud i baratoi eu hunain, eu cartrefi a bod o gymorth i aelodau eraill o'r gymuned.**
*Mae'r holl amseroedd yn rhai bras.*
**Gwybodaeth ac adnoddau i'ch cefnogi:**
- Taflen wybodaeth: Llifogydd

## Gweithgaredd 1 25 munud o hyd
### Peryglon llifddwr
Trafodwch pa 'elfennau drwg' a allai fod yn bresennol mewn llifddwr a pham eu bod yn beryglus.
**Gwybodaeth ac adnoddau i'ch cefnogi:**
- Taflen wybodaeth: Beth sydd mewn llifddwr?

## Gweithgaredd 2 25 munud o hyd
### Sut i baratoi ar gyfer llifogydd
Os ydych chi'n byw mewn ardal sydd mewn perygl o lifogydd, mae'n ddefnyddiol i gael pecyn llifogydd neu fag parod ger llaw. Yn ystod y gweithgaredd hwn rhaid i ddysgwyr nodi eitemau y dylid eu cynnwys mewn pecyn llifogydd ac egluro pam.
**Gwybodaeth ac adnoddau i'ch cefnogi:**
- Cardiau adnoddau: Pecyn llifogydd
- Taflen wybodaeth: Beth sy'n mynd yn eich pecyn llifogydd
- Taflen: Sut i baratoi ar gyfer llifogydd

## Gweithgaredd 3 25 munud o hyd
### Cynllun gadael mewn argyfwng
Rydych wedi cael gwybod bod eich ardal yn mynd i gael llifogydd ac mae gennych awr i adael. Dyma weithgaredd sy'n seiliedig ar drafodaeth i ystyried sut i baratoi eich hun a'ch cartref ar gyfer llifogydd. Pwy efallai y byddwch am gysylltu â nhw a pha gamau y gallech eu cymryd i leihau difrod?
**Gwybodaeth ac adnoddau i'ch cefnogi:**
- Taflen: Beth i'w wneud cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd

## Gweithgaredd 4 30munud o hyd
### Canlyniad llifogydd
Mae'r dysgwyr yn nodi gwahanol aelodau o gymuned a allai gael eu heffeithio gan lifogydd a thrafod sut y gallent deimlo.
**Gwybodaeth ac adnoddau ategol:**
- Cardiau Trafod: Canlyniad llifogydd

## Gweithgaredd 5 20munud o hyd
### Effeithiau llifogydd
Mae'r dysgwyr yn ystyried effeithiau byrdymor a hirdymor llifogydd ac atebion posibl.
**Gwybodaeth ac adnoddau ategol:**
- Cardiau Trafod: Effeithiau llifogydd

## Sesiwn Llawn 10 munud o hyd
Adolygu a chadarnhau dysgu drwy ofyn cwestiynau am:
- Pa elfennau drwg allai fod mewn llifddwr?
- Pa bethau pwysig y gallech fynd gyda chi os oes rhaid i chi adael eich tŷ mewn achos o lifogydd?
- Pa gamau y gallech eu cymryd i leihau difrod?
- A ydych yn adnabod rhywun sydd angen eich help neu sydd angen ystyriaeth arbennig?
- Sut y byddech yn teimlo petai eich tŷ o dan ddŵr?
- Beth yw'r prif beth i'w gofio os ydych yn cael eich dal mewn llifogydd? **Peidiwch â mentro i'r llifddwr!**

Os oes arnoch angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall, er enghraifft, mewn print bras neu mewn iaith arall, cysylltwch ag:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
0300 065 3000
**www.cyfoethnaturiol.cymru**

Mae coetiroedd Llywodraeth Cymru wedi'u hardystio'n unol â rheolau'r Forest Stewardship Council®
Welsh Government woodlands have been certified in accordance with the rules of the Forest Stewardship Council®
FSC® C-115912
Argraffwyd ar bapur Revive Offset wedi'i ailgylchu 100%
Printed on Revive offset 100% recycled paper
FSC® C008921
NRWRC000